# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Hafod Lon

Dyddiad yr arolygiad: 02/03/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Hafod Lon yn gymuned fywiog, ofalgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod eang o fedrau sy'n cefnogi eu datblygiad personol ac yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau byw'n annibynnol a phrofiadau galwedigaethol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae pob disgybl yn derbyn achrediadau priodol ac yn symud ymlaen i golegau arbenigol, canolfannau dydd neu i fyd gwaith. Mae staff hefyd yn meithrin ymdeimlad balch o Gymreictod ac yn sicrhau bod hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymru yn rhan amlwg o fywyd yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn.

Mae gan bob disgybl anghenion dysgu ychwanegol ac mae staff yn adnabod yr anghenion hyn yn dda iawn. Maent yn darparu cefnogaeth effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion weithio tuag at eu targedau personol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn hynod effeithiol, gan gynnwys y pwll hydrotherapi, yr ystafell therapi adlam a'r ardaloedd awyr agored, i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth synhwyraidd a therapiwtig yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac yn cefnogi ymgysylltiad, lles a chynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni, asiantaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill i sicrhau dull cynhwysol o ddiwallu anghenion cymhleth y dysgwyr. Mae rhieni'n cael cefnogaeth i ddefnyddio strategaethau sy'n helpu datblygiad eu plant, ac mae cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymweld â busnesau a lleoliadau lleol, gan ddatblygu medrau cymdeithasol a bywyd pwysig mewn cyd-destunau go iawn.

Mae addysgu'n effeithiol ar draws yr ysgol ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y disgyblion. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau ymarferol a diddorol sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn canolbwyntio ar gamau bach o gynnydd. Defnyddir dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys arwyddion a dyfeisiau cyfathrebu, i gefnogi datblygiad medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae cymorthyddion addysgu yn darparu cymorth effeithiol iawn ac yn annog disgyblion i ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Defnyddir asesu ac adborth yn llwyddiannus i olrhain cynnydd a gwella dysgu.

Mae'r ysgol yn cynllunio datblygiad medrau disgyblion yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol, annibynnol, corfforol a chreadigol. Maent yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr drwy weithgareddau fel gweithio yn y caffi, gofalu am randiroedd a chymryd rhan mewn mentrau busnes. Mae llawer hefyd yn cael cyfleoedd profiad gwaith yn y gymuned. Mae darpariaeth synhwyraidd yr ysgol yn nodwedd gref, gyda disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o brofiadau synhwyraidd a therapiwtig.

Mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys ac wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae

disgyblion yn dilyn llwybrau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi eu datblygiad a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd cyfoethog i ehangu eu profiadau, gan gynnwys mentrau busnes, gweithgareddau cymunedol a rhaglenni fel Gwobr Dug Caeredin.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn ac yn seiliedig ar weledigaeth glir ar gyfer datblygiad disgyblion. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o les, diogelu a datblygiad proffesiynol staff. Mae prosesau monitro a gwerthuso effeithiol yn helpu'r ysgol i nodi cryfderau a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus. Mae llywodraethwyr yn deall gwaith yr ysgol yn dda ac yn herio a chefnogi arweinwyr yn briodol, tra bod cyllid yn cael ei reoli'n effeithiol i gefnogi ansawdd addysgu a lles disgyblion.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth gadarn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu bywydau y tu hwnt i'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i ledaenu'r arferion mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a thu hwnt

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026